



Ceinciau newydd Owain Siôn

17 o geinciau cerdd dant, y rhan fwyaf yn rhai newydd sbon. Does ryfedd fod gwên ar wyneb Owain Sion wrth gyhoeddi 'Ceinciau Llwyndyrus' yn Eisteddfod yr Urdd.

Cynnyrch rhai blynyddoedd o gyfansoddi yw'r rhain - amryw ohonynt ar gyfer achlysuron arbennig megis priodas neu benblwydd priodas, ac eraill yn cael eu henwi ar ôl llefydd o arwyddocad i Owain yn bersonol. Mae un gainc wedi ei seilio ar thema ffilm Schindler's List, ac un arall ar gân enwog Islwyn Ffowc Elis, 'Fy Llong Fach Arian i'.

Cofion at Haf

Anfonwn ein cofion cynnes at Haf Morris, sydd heb fod yn dda ei hiechyd ers rhai misoedd bellach. Gwellhad buan i chi Haf!

Tlysau'r Wyl - Apêl

Dan yr amgylchiadau, a fyddai pawb a enillodd dlws yng Ngŵyl Cwm Gwendraeth mor garedig â dychwelyd y tlws/tlysau i babell Tŷ Gwerin yn Eisteddfod Bro Morgannwg. Diolch

MWY GAN MENAI

Yn y cyfamser bydd croeso cyffredinol i 'Ceinciau'r Dyffryn a Mwy' - sef ailargraffiad o 'Ceinciau'r Dyffryn' gan Menai Williams. Mae'r argraffiad gwreiddiol yn cynnwys wyth cainc, ond y tro hwn cawn fonws ychwanegol: chwech o geinciau newydd!

Menai hefyd, fel Golygydd Cerdd y Gymdeithas, sydd wrthi yn paratoi nifer o gyfrolau eraill ar gyfer eu hailargraffu: Dyffryn Conwy a Ceinciau eraill, Bedw Gwynion, Rhos Helyg, Y Cennin Aur - a rhagor.

Ar wahân i'r tywydd a'r traffig....dim problem!

Mae gwên ar wyneb Sian Eirian Davies-Hughes ar ôl Eisteddfod yr Urdd Eryri.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd Dant mae hi'n "bles iawn" fod popeth wedi mynd mor esmwyth, fod y darnau gosod wedi plesio'n fawr a bod y safon mor uchel.

"Dwi'n falch o'i gael o drosodd, cofiwch," meddai, "mae dwy flynedd o bwyllgora a chodi arian yn amser hir. Ond diolch o galon i aelodau'r pwyllgor am eu holl gydweithrediad, a hefyd, os ca'i ddweud, i'r telynorion - pobl sy ddim yn cael digon o glod yn aml."

A oedd yna uchafbwyntiau iddi hi yn bersonol? "Mi wnes i fwynhau Côr Uwchradd Dyffryn Conwy yn fawr, a hefyd Gôr Aelwyd Llangwm - er nad y nhw enillodd!"

70? Choeliwch chi byth!

Penblwydd Hapus iawn i un o aelodau mwyaf blaenllaw y Gymdeithas yn 70 oed. Bydd yn anodd iawn i neb ddyfalu at bwy cyfeiriwn gan fod y person dan sylw yn dal i edrych tua hanner hynny...

Gwerinol neu

Ddosbarth Canol?

Yn ddiweddar cynhaliodd Radio Cymru 'ddiwrnod gwerin', gyda'r rhan fwyaf o raglenni'r dydd yn rhoi sylw i ganu a cherddoriaeth gwerin a bob lliw a llun. Ond faint o sylw a gafodd cerdd dant? Nesa peth i ddim!

Ond tybed efallai nad yw cerdd dant yn cael ei ystyried yn 'werinol' erbyn hyn? Traddodiadol - efallai wir - ond nid gwerinol.

Fe allai hwn fod yn bwnc trafod difyr dros ben. Gwyddom fod gwreiddiau cerdd dant yn hollol anwerinol - llysoedd y tywysogion a phlasdai'r uchelwyr. Ond erbyn y 18fed ganrif, difyrrwch y werin datws oedd cerdd dant heb amheuaeth. Ac felly roedd yn dal i fod ymhell i mewn i'r 20fed ganrif. Ond bellach? Ai pobl grand dosbarth canol ydyn ni'i gyd erbyn hyn? Trafodwch!

Golygydd a chynhyrchwyd y rhifyn hwn gan Arfon Gwilym, gyda chymorth Delyth Vaughan

Y CERDD DANTIWR



Bwletin Newyddion Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Gorffennaf 2012

Gwefan newydd 'ddifyr a defnyddiol'

Yn ôl y ffigurau swyddogol mae dros 80% o bobl Cymru bellach ar y we - o'i gymharu â dim ond tua 25% ddeng mlynedd yn ôl.

Hollol naturiol felly yw fod y Gymdeithas Cerdd Dant hefyd yn symud gyda'r oes. Gwelodd ein gwefan gyntaf olau dydd bum mlynedd yn ôl bellach, ond fel y gwyr pawb sy'n berchen cyfrifiadur, mae'r dechnoleg yn symud yn ei blaen yn ddychrynlyd o sydyn. Penderfynwyd felly ailwampio'r hen wefan - wel, mwy nag ailwampio mewn gwirionedd, oherwydd roedd hi'n haws creu gwefan newydd sbon yn y diwedd!

Cwmni Delwedd o Gaernarfon sydd wedi gwneud y gwaith. Y bwriad o'r dechrau oedd creu rhywbeth a fyddai'n ddifyr i bobl 'o'r tu allan' - ond yn bwysicach fyth, yn ddefnyddiol i'n haelodau a'n cefnogwyr o un pen y flwyddyn i'r llall. Peth arall pwysig oedd fod modd i swyddogion y Gymdeithas ddiweddarau'r wybodaeth eu hunain heb drafferth. Fel y dywedodd Meic Roberts o gwmni Delwedd, "dydi gwefan byth wedi ei gorffen - mae hi'n newid drwy'r amser."

Rhywbeth hollol Gymraeg a Chymreig yw cerdd dant, wrth gwrs, ac efallai i ni fod yn euog yn y gorffennol o gau drws ar y byd tu allan. Ond bellach mae gennym ddisgrifiad cryno o gerdd dant ar ein gwefan mewn Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg ac Almaeneg. Barnwyd hefyd fod angen i'r adran ar hanes datblygiad cerdd dant fod ar gael yn Saesneg - yr unig le ar y we, hyd y gwyddom, lle mae cael y wybodaeth yma.

Beth yn union sydd ar y wefan newydd felly? Yn gryno:



Meic a Ceri Roberts o gwmni Delwedd wrthi'n gweithio ar y wefan newydd

- Rhestr o swyddogion ac aelodau gwahanol bwyllgorau
- Rhestr Testunau'r Wyl Cerdd Dant a manylion eraill
- Hanes datblygiad cerdd dant
- Manylion am y cwrs gosod/cyfeilio
- Rhestr o'n cyhoeddiadau
- Archif Sain a Llundain
- Ôl-rifynnau y Cerdd Dantiwr
- Y Cyfansoddiad newydd (o fis Hydref ymlaen)
- Adran arbennig lle mae holl geinciau Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Wyl Cerdd Dant ar gael mewn gwahanol gyweiriau - gwasanaeth gwych!
- Yn y misoedd nesaf hefyd gobeithir datblygu adran lle ceir gwersi syml ar sut i osod.

Diolch i gwmni Delwedd ac i Delyth Vaughan am eu holl waith. A chofiwch mai yno i'w defnyddio y mae'r wefan.

Cofiwch alw yn stondin Tŷ GWERIN yn Eisteddfod Bro Morgannwg, lle byddwn unwaith eto yn rhannu gyda mudiadau sy'n hyrwyddo cerddoriaeth draddodiadol Cymru.

COLLI ELINOR

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Elinor Pierce, Llanddarog, un o Lywyddion Anrhydeddus y Gymdeithas ac un a gyfrannodd yn helaeth i'r byd cerdd dant ar hyd ei hoes. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu i gyd.

Cyfeiriad y wefan newydd: www.cerdd-dant.org



CROESO I'R TRYSORYDD NEWYDD

Braf iawn yw cael croesawu Trebor Lloyd Evans fel Trysorydd newydd y Gymdeithas Cerdd Dant. Mae'n frodor o Langwm, a bellach wedi symud yn ôl yno i fyw gyda Carys ei wraig. Ef, wrth gwrs, oedd enillydd Y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, 2009. Cyn ymddeol, roedd yn fanciwr: pa well cymwysterau felly fel Trysorydd? Diolchiadau lu hefyd i Eysyllt Tudur am sefyll yn y bwlch am flwyddyn.

Llun: Cadeirydd presennol y Gymdeithas, Einir Wyn Jones, Trebor Lloyd Evans a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Iwan Morgan.

Cwrs Preswyl Penwythnos ar y grefft o Osod a Chyfeilio Cerdd Dant

yng NGWESTY BRYN AFON, RHAADR
7 - 9 MEDI 2012



Cost y cwrs: £150 (£75 i fyfyrwyr)

gan gynnwys pob pryd bwyd o ginio nos Wener hyd at ginio dydd Sul

Cynhelir y cwrs i unrhyw un sy'n dymuno hyfforddiant yn y grefft o osod.

Bydd croeso i'r rhai sydd wedi diŷn cwrs o'r blaen.

Gellir mynychu rhan ohono yn unig, os dymunir, am bris gostyngol.

Am fwy o fanylion am y cwrs neu am drefniadau teithio, cysylltwch â:
Delyth Vaughan, 14 Ffordd Ffrydias, Carneddi, Bethesda, Gwynedd LL57 3BL.
Ffôn: 01248 602323 e-bost: delythf@btinternet.com
Eleni Gofestrolig 0161 500350 www.cerdd-dant.org

GALW AR OSODWYR A CHYFEILYDDION

Cofiwch bawb am y Cwrs Gosod a Chyfeilio yn Rhaadr, Medi 7-9.

Am y tro cyntaf, bydd y ddau gwrs yn cyd-redeg.

Yng nghwmni Alwena Roberts, Menna Tomos, Menai Williams, Dafydd Huw Jones, Dylan Cernyw, a Gwenan Gibbard, pwy all beidio neidio at yr abwyd? Rhowch eich enwau i Delyth Vaughan yn reit sydyn!

SUT MAE MYND I BENFFORDDLAS?

Dyna'r cwestiwn hollbwysig i aelodau os ydynt am gyrraedd y Cyfarfod Blynyddol ar Fedi 22ain. (Yr ateb? wel chwiliwch ar y map!! Cliw - rhywle yn Sir Drefaldwyn).

Dyma ardal y Llywydd, Elsbeth Pierce Jones, wrth gwrs, a braf iawn fydd mynd i ardal sydd efallai yn anghyfarwydd i lawer o aelodau.

Cwestiwn: faint ohonoch chi sy'n cofio pryd y bu'r Cyfarfod Blynyddol yn Sir Drefaldwyn o'r blaen? A pha un o'r tri hyn oedd y Llywydd: Lisa Erfyl, Dwynwen Jones neu Elwyn Davies? Chwiliwch drwy hen rifynnau yr *Allwedd!*

CYFANSODDIAD NEWYDD

Pobl bwysig iawn sydd fel arfer yn eistedd ar Gomisiwn i drafod dyfodol Cyfansoddiad!

Efallai nad yw Cyfansoddiad y Gymdeithas Gerdd Dant lawn mor bwysig â Chyfansoddiad y Deyrnas Unedig - ond mae'n bwysig er hynny! Aeth blynyddoedd lawer heibio ers i hwn gael ei ddiwygio a'i ddiweddarau, felly roedd hi'n hwyr bryd mynd ati.

Aelodau'r pwyllgor oedd y Barwn Owain o Lantaf, Y Fonesig Einir Wyn o Lŷn, Yr Arglwyddes Eleri o Gomins Coch, Y Fonesig Delyth Vaughan o Fethesda a'r Arglwydd Arfon o Arfon (neu, i'w ffrindiau, Owain Sion, Einir Wyn Jones, Eleri Roberts, Delyth Vaughan ac Arfon Gwilym!).

Mae Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas bellach wedi derbyn y diwygiadau a gynigwyd gan y pwyllgor, ond bydd yn rhaid i Gyfarfod Cyffredinol arbennig eu pasio yn derfynol. Cynhelir y cyfarfod hwnnw yr un diwrnod â'r Cyfarfod Blynyddol, Medi 22.



Tlws gwerth ei gael ar eich silff ben tân

Mae'r gwaith o baratoi at Wyl Cerdd Dant Dyffryn Conwy (*Venue Cymru, Llandudno, Tachwedd 10*) yn mynd rhagddo yn hwylus. Os byddwch yn cystadlu yn yr ŵyl ac yn ddigon ffodus i ennill gwobr gyntaf byddwch yn derbyn tlws arbennig o hyfryd, wedi ei gynllunio gan Eirian Evans o Ysbyty Ifan. Yn ei ddangos yn y llun uchod yn Nhŷ Gwerin Eisteddfod yr Urdd y mae Ysgrifenyddion gweithgar yr ŵyl, Dennis ac Enid Davies.

Un ychwanegiad diddorol at y Rhestr Testunau eleni yw'r Unawd Cerdd Dant i rai dros 50 oed - y testun yn agored. "Y gobaith yw denu pobl sy wedi 'ymddeol' o

gystadlu ond sy'n dal i ganu cerdd dant," meddai Cadeirydd y pwyllgor lleol, Dafydd Huw Jones. "Dwi'n gobeithio y bydd pobl yn ymateb!"

Cofiwch am y dyddiad cau ar gyfer cystadlu: Hydref 1af.

YN ÔL I'R BONT

Bydd yr Wyl Cerdd Dant yn dychwelyd i Bontrhydfendigaid y flwyddyn nesaf. Y Cadeirydd, fel y tro o'r blaen, fydd Neli Jones.

Mae pawb yn cofio am lwyddiant yr ŵyl ddiwethaf yn 2007 - y gwaith paratoi trylwyr a'r croeso twymgalon ar y dydd. Edrychwn ymlaen.

Y BARDD A'R GAINC

Patrymau o fesurau rhydd sy'n addas i'w gosod ar geinciau Cerdd Dant



Syched am gerddi newydd

"Pa eiriau fedrwn ni eu gosod sy heb gael eu defnyddio o'r blaen?" Dyna'r cur pen yn aml wrth lunio testunau gŵyl ac eisteddfod. Dyna pam fod cael cerddi addas i'w canu yn angenrhaidd parhaus, er cystal yw llawer o'r cerddi a ganwyd ar hyd y blynyddoedd. Does dim disgwyl i feirdd fod yn cyfansoddi yn unswydd ar gyfer cerdd dant, a does dim disgwyl i'w chwaith iddyn nhw fod yn ymwybodol o anghenion penodol cerdd cant - beth yn union sy'n addas a beth sy'n anaddas.

Cam bach i wella'r sefyllfa yw cyhoeddi llyfryn poced bychan "Y Bardd a'r Gainc." Mae'n cynnwys patrymau o fesurau rhydd sy'n addas i'w gosod ar geinciau cerdd dant. Y gobaith yw y bydd yn gymorth i unrhyw fardd sydd awydd cyfansoddi cerdd ar gyfer ei chanu gyda'r tannau (i fardd, mae manteision mawr i hynny onid oes? Meddylier am y cannoedd o bobl, e.e., sy'n dysgu geiriau ar eu cof ar gyfer eu canu mewn cystadleuaeth neu gyngerdd).

Efallai y dylai'r Gymdeithas wneud mwy i gomisiynu'r beirdd yn benodol - wedi'r cyfan, dyna un ran bwysig o swyddogaeth beirdd ar hyd y canrifoedd. Neu gynnal cwrs?